NEATH PORT TALBOT COLLEGE
COLEG CASTELL NEDD PORT TALBOT
NPTC

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd dan
Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

CYNNWYS

		Tudalen(nau)
ADRAN 1	Cyflwyniad	1 - 4
ADRAN 2	Gweithredu Egwyddor Cydraddoldeb	5 - 6
ADRAN 3	Asesu Effaith Datblygiadau Newydd	7
ADRAN 4	Darparu Gwasanaeth yn Gymraeg	8 - 11
ADRAN 5	Safonau Ansawdd	12
ADRAN 6	Cyfathrebu â'r Cyhoedd	13 - 15
ADRAN 7	Wyneb Cyhoeddus y Coleg	16 - 19
ADRAN 8	Gweithredu a Monitro'r Cynllun	20 - 26
ADRAN 9	Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun	27
ADRAN 10	Amserlen ar gyfer Gweithredu	28 - 33
ATODIAD	Cynnydd wrth Weithredu Polisi Iaith Gymraeg y Coleg	

Comment [h1]: Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

Cynllun Iaith Gymraeg yw hwn a baratowyd dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Castell-Nedd Port Talbot gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan ADRAN 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg ar 13 Rhagfyr 2004.

Mae Coleg Castell-nedd Port Talbot wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r modd y bydd y Coleg yn rhoi'r egwyddor hon ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

ADRAN 1:

CYFLWYNIAD

1.1 Y Coleg a'i Leoliad

Sefydlwyd Coleg Castell-nedd Port Talbot ym mis Ionawr 1999 yn dilyn uno hen Golegau Afan a Chastell-nedd. Yn 2004 y coleg, erbyn hyn, yw un o'r colegau mwyaf yng Nghymru o ran niferoedd y myfyrwyr, ac mae ganddo drosiant blynyddol o dros £20 miliwn. Fe'i sefydlwyd fel coleg trydyddol, ac mae'n darparu addysg a hyfforddiant ôl-16 i fwyafrif helaeth o ddisgyblion yr ysgolion lleol, yn cyflwyno hyfforddiant pwrpasol ar gyfer diwydiant a busnes yn yr ardal, ac mae'n chwarae rôl flaenllaw wrth ddarparu dysgu yn y gymuned.

Mae'r coleg yn gweithredu ar y prif gampysau yng Nghastell-nedd ac Afan, mewn canolfannau Oedolion a Chymunedol ym Mhontardawe (Coleg Cwmtawe) ac yng nghanol tref Castell-nedd (Canolfan Stryd y Frenhines), yn y Ganolfan Grefftau Adeiladu yn Llansamlet ac yn ei Ganolfan Ddatblygiad Proffesiynol ym Mharc Margam (Twyn-yr-Hydd).

Adeg yr uno, cafodd llawer eu recriwtio i raglenni yng nghampws Castell-nedd, ond roedd rhywfaint o bryder am y niferoedd a oedd yn gostwng yng nghampws Afan. Fodd bynnag, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, buddsoddwyd yn sylweddol mewn marchnata a darparu offer ar gyfer y campws, a gweithredwyd strategaeth glir ar gyfer twf cynyddol. Mae ffocws ar ddatblygu partneriaethau cryfach ag ysgolion lleol a sefydliadau addysg uwch wedi arwain at gynnydd cyson yn niferoedd y myfyrwyr ac at ymgorffori nifer o raglenni newydd ar lefelau AB ac AU ym mhortffolio Afan.

Mae campws Castell-nedd ar hyn o bryd yn dyst i ail gyfnod rhaglen fawr adeiladu ac ailgyflunio ystadau. Cwblhawyd y cyfnod cyntaf ym 1997 gydag agoriad bloc addysgu mawr newydd, a bydd hwn yn cael ei ategu gan Ganolfan Ddysgu Electronig £6 miliwn a fydd yn cael ei hagor ym mis Mai 2004, a fydd yn darparu ar gyfer y meysydd rhaglen Addysg Gyffredinol, Celf a Dylunio, y Cyfryngau a'r Celfyddydau Perfformio, Cyfrifiadureg a Pheirianneg, ynghyd â chanolfannau adnoddau dysgu amlbwrpas anferth ar dri llawr. Mae datblygiad canolfan chwaraeon ar waith ym Mharc Llandarsi ar hyn o bryd.

1.2 Darpariaeth a Diwylliant

Mae'r coleg yn cofrestru dros 15000 o fyfyrwyr bob blwyddyn, ac mae dros 3000 ohonynt yn ddysgwyr amser llawn. Mae ganddo broffil staffio sy'n cynnwys dros 600 o staff academaidd a staff cefnogi sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y coleg. Y trosiant yn 2002 oedd £20.8 miliwn.

Mae portffolio'r cwricwlwm yn cynnwys dros 40 o bynciau ar Lefel UG/Safon Uwch a rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau galwedigaethol o lefel mynediad i lefel 4. Cynigia'r coleg hefyd ystod eang o raglenni addysg uwch a gyflywnir yn ganddo yn bennaf ar sail rhyddfraint o amrywiaeth o bartneriaid Addysg Uwch. Mae'r ddarpariaeth ddysgu yn y gymuned yn eang ac mae'n cynnwys cyrsiau a gyflwynir gan y coleg ei hun a'r rheiny a gyflwynir trwy weithrediad rhyddfraint mewn cydweithrediad â'r awdurdod addysg lleol. Cynhelir y rhain ar hyn o bryd mewn dros 70 o leoliadau allymestyn. Darperir hyfforddiant ar gyfer pobl sydd yn chwilio am waith ac sydd mewn gwaith gan yr Uned Hyfforddiant Llwybrau a chan adain fasnachol y coleg 'hyfforddiantcymru.com'. Mae cyfranogiad sylweddol a chynyddol mewn rhaglenni UfI/Cyswlltdysgu wedi bod yn nodwedd ddiweddar ar ddarpariaeth y coleg. Mae'r coleg wedi ymrwymo'n gryf i ddatblygu'r agweddau dwyieithog ar ei bortffolio fel sy'n amlwg o adran Datblygu'r Iaith Gymraeg yng Nghynllun y Sefydliad a luniwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Mae gan y coleg enw da o ran: canlyniadau academaidd; ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r dysgu; ei gymorth i fyfyrwyr; ei waith gyda diwydiant a'i waith yn y gymuned. Mae hefyd yn enwog yn genedlaethol am lwyddiant ei fyfyrwyr presennol a'i gyn fyfyrwyr ym myd chwaraeon ac am lwyddiannau ei fyfyrwyr arlwyo yn ennill cystadlaethau cenedlaethol.

Mae'r coleg yn dilyn polisi gweithredol 'coleg cynhwysol' ac yn darparu ar gyfer myfyrwyr ag anableddau neu anawsterau dysgu o bob oed ar raglenni cynalwedigaethol priodol neu mewn cyrsiau prif ffrwd. Mae'n rhagweithiol wrth sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad priodol i'r rhaglenni astudiaeth o'u dewis. Ymestynnir yr ymagwedd hon i strategaeth recriwtio a chyflogaeth y coleg ac arweiniodd at ennill Gwobr Remploy Cymru i gwmnïau sy'n cyflogi pobl ag anableddau. Gweithredir gwasanaeth arweiniad a chymorth helaeth i fyfyrwyr yn y ddau brif gampws ac mewn lleoliadau cymunedol amrywiol. Atgyfnerthwyd hyn yn ddiweddar gan brosiect a ariennir gan Amcan 1 i fynd i'r afael â 'Gweithredu er mwyn Cadw a Llwyddo'.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i weithio trwy bartneriaeth ddilys ac effeithiol gyda sefydliadau eraill. Mae ganddo berthynas waith gref iawn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a chyda'r sector gwirfoddol lleol. Mae'r Pennaeth ar hyn o bryd yn Is-Gadeirydd y CCAH lleol, ar ôl gweithredu fel Cadeirydd yn ystod prif gyfnod ei ddatblygiad. Mae'r coleg yn bartner blaenllaw mewn prosiect dysgu cymunedol pwysig, y 'Rhwydwaith Dysgu Newydd', a gefnogir gan nawdd Amcan 1.

1.3 Strwythur Trefniadol

Arweinir y coleg gan Uwch Dîm Rheoli, a gefnogir gan y Clerc i'r Gorfforaeth/ Ysgrifennydd y Coleg. Mae'r uwch-reolwyr bob amser wedi gweithredu yn ôl moeseg tîm cryf trwy gefnogi ei gilydd a chymryd cyfrifoldeb unigol ac ar y cyd am ddatblygiad strategol a gweithredu'r coleg yn gyffredinol. Ailgyfluniwyd y tîm yn ddiweddar, yn dilyn ymddeoliad yr Is-Bennaeth blaenorol, i gynnwys dau reolwr sydd wedi'u huwchraddio o Fwrdd Rheoli'r Coleg ar gyfer cyfnod 2003-2004 i wneud y gwaith a adawyd gan y Penaethiaid Cynorthwyol blaenorol. Mae'r Uwch Dîm felly'n cynnwys y Pennaeth, y ddau Is-Bennaeth, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Dysgu, y Cyfarwyddwr Adnoddau a Gwasanaethau ar gyfer Dysgu ac Ysgrifennydd y Coleg. Mae'r Pennaeth, yr Is-Benaethiaid a'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Dysgu yn siarad Cymraeg yn rhugl. Cefnogir gwaith yr uwch reolwyr gan grŵp o uwch reolwyr canol sy'n aelodau o Fwrdd Rheoli'r Coleg. Mae'r unigolion hyn yn rheolwyr academaidd allweddol ac yn rheolwyr uned swyddogaethol sy'n gweithredu fel y rhyngwyneb rhwng y meysydd strategol a'r meysydd gweithredol.

Mae mwyafrif y ddarpariaeth ar gael mewn pump o'r prif Gyfadrannau, a chyflwynir y ddarpariaeth hon gan staff sy'n perthyn i ddeuddeg Adran. Mae'r Rheolwyr Cyfadran a'u Rheolwyr Adrannol priodol yn gyfrifol am ystod a chwmpas y ddarpariaeth yn eu meysydd ac am ei hansawdd yn ogystal â'r dulliau o'i chyflwyno. Mae dau o'r Rheolwyr Cyfadran a chwech o'r Rheolwyr Adran yn siarad Cymraeg. Mae dros hanner aelodau Bwrdd Rheoli'r Coleg yn siarad Cymraeg. Dengys yr archwiliad diweddaraf o fedrau dwyieithog y staff (Holiadur yr Uned Ddwyieithog, 2003), i 56% o'r ymatebwyr (16.6% o'r holl staff), fynegi eu bod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Dywedodd 3.5% eu bod yn rhugl, honnodd 1.5% eu bod yn siarad Cymraeg yn eithaf da, roedd 1.6% yn credu bod ganddynt allu cymedrol, a 10% yn disgrifio'u hunain fel gallu siarad 'rhywfaint' o Gymraeg.

1.4 Dalgylch

Y coleg yw'r prif ddarparwr addysg ôl-16 yn awdurdod unedol Castell-nedd Port Talbot. Mae'n darparu llwybr dilyniant i ddisgyblion o bedair ysgol uwchradd ym Mhort Talbot a chwe ysgol uwchradd yng Nghastell-nedd. Mae yna hefyd ysgol Gatholig 11-18 oed ac ysgol Gymraeg 11-18 oed yn yr awdurdod addysg lleol. Daw nifer o fyfyrwyr o'r tu allan i'r dalgylch i astudio ar raglenni dysgu sy'n unigryw i'r coleg. Mae'r coleg hefyd yn darparu'n helaeth ar gyfer anghenion dysgu oedolion yn ardal yr awdurdod unedol mewn perthynas ag Addysg Uwch, addysg gymunedol a rhaglenni hyfforddiant ar gyfer diwydiant a busnes lleol.

Mae proffil daearyddol, diwydiannol, ac ieithyddol-gymdeithasol Castell-nedd Port Talbot yn amrywiol. Siaradwyr uniaith Saesneg sy'n byw yng nghymunedau Port Talbot yn eu hanfod, ar wahân i rai rhannau o Gwm Afan. Yr un yw'r sefyllfa yng nghymunedau trefol Castell-nedd, ond mae gan Gwm Nedd a Chwm Dulais gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg, er bod y rhain ymhlith y genhedlaeth hŷn. Y prif ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn yr awdurdod yw yng Nghwm Tawe o Bontardawe i Ystradgynlais ac yng nghymunedau Gwaun-cae-Gurwen, Cwmgors, Tairgwaith a Brynaman. Roedd cyfrifiad y Llywodraeth yn 2001 yn dangos nad oedd gan 71.18% o boblogaeth Castell-nedd Port Talbot unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg. O blith y rheiny oedd â gwybodaeth, roedd 12.83% yn honni eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. O blith y boblogaeth ddysgu cyn-16 sy'n siarad Cymraeg, mae dros 90% o'r disgyblion yn mynychu Ysgol Gyfun Ystalyfera (Cynllun Cymunedol Castell-nedd Port Talbot, 2003) ac yn dewis parhau â'u haddysg ôl-16 yn yr ysgol. O blith y rheiny sy'n dewis mynd i'r coleg ar gyfer y cyfnod ôl-16, mae'r niferoedd wedi'u gwasgaru'n denau dros ystod eang o feysydd rhaglen. Dengys dadansoddiad o ddata cofrestru cyfredol, o blith y myfyrwyr amser llawn, fod 2.1% yn ystyried y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf ar gyfer cyfathrebu, mae 6.7% yn honni eu bod yn siarad Cymraeg a 0.44% yn nodi mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith i gyfathrebu. (Data cofrestru Coleg Castell-nedd Port Talbot, 2003-04).

Felly, dylid ystyried y camau y mae'r Coleg eisoes wedi'u cymryd, ac y mae'n ymrwymo i'w cyflawni yn y cylch gwaith ac yn nhelerau ei Gynllun Iaith Gymraeg, yn unol â'r proffil ieithyddol-gymdeithasol, diwylliannol a demograffaidd a nodir uchod.

Yr uwch-ddeiliad swydd sy'n gyfrifol am Gynllun Iaith Gymraeg y Coleg yw'r Is-Bennaeth. Dylid cyfeirio ymholiadau am y Cynllun at ddeiliad y swydd yn y Coleg ar hyn o bryd, sef:

Mr. Rob Fowler
Yr Is-Bennaeth
Coleg Castell Nedd Port Talbot
Heol Dŵr-y-Felin
Castell Nedd
SA10 7RF

Ffôn: (01639) 648000
e-bost: rob.fowler@nptc.ac.uk

ADRAN 2

GWEITHREDU EGWYDDOR CYDRADDOLDEB

Mae Coleg Castell-nedd Port Talbot yn cefnogi polisi cyfle cyfartal i'w holl ddysgwyr a'i staff, ac ymdrecha i reoli'n effeithiol yr amrywiaeth cyfoethog sy'n amlygu ei hun yn y gymuned y mae'r Coleg yn ei gwasanaethu. Dylid ystyried ymagwedd y Coleg at yr iaith Gymraeg yn y cyd-destun hwn.

Ers llunio Cynllun y Sefydliad cyntaf ar gyfer CCABC, ELWa bellach, mae'r coleg wedi credu ei bod yn gywir ac yn briodol neilltuo adran o'r Cynllun ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg. Er 1996, mae'r Coleg wedi llunio ac wedi gweithredu ei Bolisi Iaith Gymraeg ei hun a oedd yn ymwybodol o delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac sydd wedi tanategu llunio'r nodau strategol a'r cynllun gweithredol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae'r polisi'n cynnwys yr egwyddor tanategol y dylid '*sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ethos a hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad'* , ac adlewyrchir yr egwyddor hon yn y ddau brif Nod Strategol ar gyfer adran Datblygu'r Iaith Gymraeg Cynllun Sefydliadol y Coleg, sydd heb ei newid er 1996:

- gweithredu'n gynyddol Cynllun Iaith Gymraeg y Coleg mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau priodol Coleg Castell-nedd Port Talbot;

- hyrwyddo'r ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon i fyfyrwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg fel ychwanegiad at fyw mewn cymdeithas ddwyieithog.

(Cynlluniau Sefydliadol Coleg Castell-nedd Port Talbot 1996-2003)

Mae pob adran o'r Cynllun, felly, yn amodol ar y nod hollgynhwysol hwn.

2.1 Polisi a Chynllunio

2.1.1 Caiff pob polisi a menter newydd eu creu a'u ffurfio o fewn fframwaith y coleg ar gyfer cynllunio sefydliadol. Ceir rheolaethau yng nghylch gwaith Bwrdd Rheoli'r Coleg a'r Uned Ddwyieithog i sicrhau bod canlyniadau ieithyddol pob polisi a menter newydd yn cael eu hasesu a bod y coleg yn mynd i'r afael â hwy o ran hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, lle bydd hi'n bosibl, ac felly, symud y coleg yn agosach at weithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob adeg.

2.1.2 Mae'r fframwaith cynllunio sefydliadol yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau polisi newydd yn gyson â Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg ac na fyddant yn diddymu nac yn tanseilio'r Cynllun.

2.1.3 Ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw o ran unrhyw gynigion sy'n effeithio'n sylweddol ar y Cynllun neu ar weithredu'r

Cynllun yn y Coleg neu Gynlluniau sefydliadau eraill. Ni fydd y Cynllun yn cael ei addasu heb ganiatâd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2.1.4 Sicrheir y bydd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg a rhwymedigaethau a chyfrifoldebau'r Coleg dan amodau Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993. Bydd pob aelod o'r staff yn cael copi o'r Cynllun. Bydd y Cynllun yn cael ei roi ar wefan y Coleg ac ar fewnrwyd y staff. Bydd copi caled o'r Cynllun yn cael ei roi yn llyfrgelloedd y Coleg ac yn y Derbynfeydd amrywiol. Bydd cynnwys y Cynllun yn ymddangos yn rheolaidd yn rhaglen flynyddol datblygiad staff y Coleg, mewn rhaglenni anwythiad staff ac mewn sesiynau briffio staff bob tymor.

2.1.5 Bydd y Coleg yn sicrhau bod y camau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cymhwyso'n addas ac yn gyson o ran gweithredu unrhyw bolisïau neu fentrau.

2.1.6 Mae isadeiledd rheolaeth y Coleg yn sicrhau bod penderfyniadau polisi'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd i'w cadarnhau ac i'w cymeradwyo'n derfynol gan Fwrdd y Gorfforaeth. Dirprwyir y penderfyniadau i'r Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd Rheoli'r Coleg, sy'n cynnwys pob un o'r rheolwyr canol yn y Coleg, ac mae eu cylch gwaith yn cynnwys pob agwedd ar weithredu'r coleg.

2.1.7 Yng Nghynllun y Sefydliad, mae gan y Coleg gyfres o Flaenoriaethau Pennawd, ac un o'r rhain yw'r Cynllun Iaith Gymraeg. Adolygir y blaenoriaethau hyn ddwywaith y flwyddyn gan Fwrdd Rheoli'r Coleg a chaiff unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Cynllun neu ei effaith ar unrhyw Flaenoriaethau Pennawd eraill eu trafod, eu cofnodi a'u hamlygu ar gyfer eu monitro yn y dyfodol.

2.1.8 Mae Prifathrawiaeth y Coleg ar hyn o bryd yn cynnwys y Pennaeth a dau Is-Bennaeth, ac mae pob un o'r tri yn siarad Cymraeg yn rhugl ac wedi ymrwymo'n llwyr i drawsnewid y Coleg yn gynyddol i ddod yn fwy o sefydliad addysgol dwyieithog.

ADRAN 3

ASESU EFFAITH DATBLYGIADAU NEWYDD

3.1 Effaith Ieithyddol

3.1.1 Mae gan y Coleg Bolisi Iaith Gymraeg er 1996, ac mae'r polisi hwn wedi'i gyfleu trwy sianelau cyfathrebu arferol y Coleg. Caiff gweithredu unrhyw ddatblygiadau newydd a materion iaith Gymraeg cydredol sy'n deillio o'r polisi hwn ei fonitro gan bwyllgorau a grwpiau rheoli perthnasol y coleg. Bydd Cynllun Iaith Gymraeg y Coleg yn atebol i'r un gweithdrefnau monitro ac adolygu i sicrhau bod y camau a nodir wir yn cael eu gweithredu yn unol â'r Cynllun, ac y bydd cysondeb o ran safon y gwasanaeth yn Gymraeg a ddarperir gan y Coleg o'i gampysau/lleoliadau amrywiol.
(Targed: 2004-05)

3.1.2 Rhoddir statws 'eitem agenda sefydlog' i'r Cynllun Iaith Gymraeg ar bob un o bwyllgorau'r coleg ynghyd â'r agenda eitemau sefydlog cyfredol, sef 'Ansawdd' a 'Iechyd a Diogelwch'. Yn hyn o beth, bydd pob aelod o staff y coleg yn cymryd rhan yn rheolaidd o ran goblygiadau ieithyddol y Cynllun mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiadau newydd sy'n cael eu hystyried.
(Targed: 2004-05)

3.2 Cyfathrebu Goblygiadau

3.2.1 Bydd yr Uned Adnoddau Dynol yn cynnwys hyfforddiant rheolaidd i'r staff ar gynnwys Cynllun Iaith Gymraeg y coleg yn ei raglen flynyddol datblygiad staff. Rhoddir hyfforddiant penodol ychwanegol i reolwyr sy'n gyfrifol am weithredu agweddau penodol ar y cynllun. **(Targed: 2004-05)**

3.2.2 Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei roi ar wefan y Coleg yn ogystal ag ar fewnrwydi'r staff a'r myfyrwyr (VLE) er mwyn gwneud y defnydd mwyaf ohono. Bydd copi caled o'r Cynllun yn cael ei roi yn llyfrgelloedd y Coleg ac yn y Derbynfeydd amrywiol. Bydd cynnwys y Cynllun yn ymddangos yn rheolaidd yn rhaglen flynyddol datblygiad staff y Coleg, mewn digwyddiadau anwytho staff ac mewn sesiynau briffio staff bob tymor. **(Targed: 2004-05)**

3.2.3 Pryd bynnag y bydd polisi neu fenter newydd yn cael eu gweithredu, bydd y camau hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun sy'n briodol i'r polisi hwnnw neu'r fenter honno yn cael eu cyfathrebu i'r staff trwy holl sianelau cyfathrebu arferol y Coleg. **(Targed: 2004-05)**

ADRAN 4

DARPARU GWASANAETH TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Ers ffurfio'r Coleg ym 1999, yn dilyn uno cyn Golegau Castell-nedd ac Afan, gwnaed ymdrechion ar y cyd i ymestyn darpariaeth y profiadau dysgu trwy'r Gymraeg, naill ai'n unigryw neu fel elfen o gwrs Saesneg yn bennaf i'r myfyrwyr hynny a oedd yn dymuno, ac a allai elwa o brofiad o'r fath. Caiff yr ymdrechion hyn eu hamlygu a'u dogfennu yng Nghynlluniau Strategol a Gweithredol y Coleg ac yn y targedau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig. Bu darpariaeth o'r fath dim ond yn bosibl pan fydd naill ai'n cael ei chyflwyno gan ddarlithydd Iaith Gymraeg neu yn sgîl cyd-ddigwyddiad ffodus arbenigedd pwnc ac arbenigedd galwedigaethol, gallu dwyieithog a grwpio ymarferol myfyrwyr. Mae penodi Swyddog Iaith Gymraeg amser llawn yn 2001, fodd bynnag, wedi helpu cyflymu datblygiad gwasanaethau Cymraeg.

4.1 Darpariaeth Yn Ystod y Pum Mlynedd Diwethaf

Yn gryno, mae'r ddarpariaeth yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi cynnwys:

- Rhaglenni Cymraeg i Oedolion yn y gymuned;
- Dosbarthiadau sgwrsio i oedolion;
- Sadwrn Siarad yng Nghanolfan Stryd y Frenhines, canol tref Castell-nedd;
- Sesiynau tiwtorial cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch;
- Modiwl Anwythiad Dwyieithog i bob myfyriwr;
- Cyflwynir y modiwlau'n ddwyieithog yn y maes rhaglen Busnes;
- Cynigir a chyflwynir Sgiliau Allweddol Cyfathrebu yn Gymraeg ar lefel 2;
- Sgiliau Allweddol lefel 2 Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun yn cael ei ddatblygu a'i asesu yn Gymraeg;
- Rhaglen ddwyieithog lefel 2 Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal plant, Iechyd ac Addysg mewn partneriaeth ag Ysgol Gyfun Ystalyfera;
- Modiwl cyfrwng Cymraeg ar gyfer DCU y Cyfryngau Darlledu;
- Sgiliau Sylfaenol yn Gymraeg i rieni mewn ysgolion cynradd Cymraeg eu cyfrwng (Cynllun Fflam);
- Dosbarthiadau Cymraeg pwrpasol ar gyfer staff gweinyddol a staff cefnogaeth llinell flaen y Coleg;
- Addysgu anffurfiol yn Gymraeg gyda myfyrwyr mewn meysydd rhaglen lle mae'r staff yn teimlo'n hyderus o ran eu gallu ar lafar –Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Astudiaethau Busnes, Arlwyo, y Celfyddydau Perfformio, Peirianneg; Chwaraeon; Cyfrifiadureg;
- Cyfweliadau cais yn Gymraeg, ar gais;
- Cofnodi gallu'r myfyrwyr i gyfathrebu yn Gymraeg a'u dewis iaith ar gyfer dysgu adeg cofrestru a sicrhau darpariaeth briodol lle bydd yn bosibl.

4.2 Darpariaeth Gyfredol

4.2.1 Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn cynnwys y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth sydd wedi'i nodi uchod, ar wahân i ddileu unedau yn y maes rhaglen Busnes oherwydd diffyg niferoedd a pheidio â chyflwyno dosbarthiadau ar gyfer staff cefnogi gweinyddol lle mae'r angen a'r galw yn gylchol.

4.2.2 Dimensiwn ychwanegol yn 2003-04 fu trefnu lleoliadau profiad gwaith cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr sy'n gwneud cais o'r fath. Y maes rhaglen mwyaf poblogaidd i fyfyrwyr gael mynediad at y cyfleuster hwn oedd mewn Gofal Iechyd, Cymdeithasol a Gofal Plant.

4.3 Darpariaeth yn y Dyfodol

Mae pob un o Gyfadrannau'r Coleg wedi llunio Cynllun Datblygu Darpariaeth i gyd-fynd â phrif Gynllun y Sefydliad. Yn y Cynlluniau Datblygu Darpariaeth hyn, un o'r gofynion yw nodi unrhyw ddarpariaeth iaith Gymraeg neu ddwyieithog ar gyfer y cyfnod 2004-2007. Mae'r ddarpariaeth, sy'n cynnwys dimensiwn iaith Gymraeg, a gynlluniwyd yn y Cyfadrannau am y cyfnod hwn o dair blynedd fel a ganlyn:

- Cyfathrebu Sgiliau Allweddol Lefel 3; **(Targed: 2004-05)**
- Tystysgrif Lefel 2 CACHE mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar; **(Targed: 2004-05)**
- Uned Cymru, Ewrop a'r Byd yng nghynllun peilot Bagloriaeth Cymru; **(Targed: 2004-05)**
- Sesiynau hyfforddiant chwaraeon dwyieithog; **(Targed: 2004-05)**
- Mathemateg TGAU; **(Targed: 2005-06)**
- TG ar gyfer y bobl sy'n ei hofni; **(Targed: 2005-06)**
- Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar; **(Targed: 2005-06)**
- Lleoliadau profiad gwaith cyfrwng Cymraeg ar Ddiploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar; **(Targed: 2005-06)**
- Ehangu darpariaeth y sesiynau tiwtorial yn Gymraeg fel a nodwyd yn y Matrics Gwasanaethau Iaith Gymraeg 2004 – 2007 dros y dudalen; **(Targed: 2005-06)**
- Cynllun Croeso; **(Targed: 2005-06)**
- Defnyddio e-ddysgu i fodloni anghenion iaith Gymraeg dysgwyr; **(Targed: 2005-06)**
- Unedau CGC iaith Gymraeg ar gyfer myfyrwyr a staff; **(Targed: 2006-07)**
- Modiwlau RhCA mewn Addurno Cacennau; **(Targed: 2006-07)**

4.4 Amserlen ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Iaith Gymraeg

Ceir disgrifiad o'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno darpariaeth yn raddol yn y meysydd rhaglen amrywiol dros y dudalen:

Cyflwyno Gwasanaethau Iaith Gymraeg 2004 - 2007

Maes Cwricwlwm	Gwybodaeth ac Arweiniad#	Cyfweliad Mynediad	Ymwybydd-iaeth Iaith	Sesiynau Tiwtorial	Adnoddau Dysgu##	Cyflwyno	Profiad Gwaith	Asesu
Celf a Dylunio	04-05	04-05	05-06	06-07*	06-07	S	06-07	06-07
Y Celfyddydau Perfformio	04-05	04-05	05-06	04-05*	05-06	06-07	06-07	06-07
Gwyddoniaeth Gymhwysol	04-05	04-05	05-06	04-05	04-05	05-06	06-07	05-06
Busnes/Rheolaeth	04-05	04-05	05-06	04-05*	06-07	06-07	06-07	06-07
Arlwyo	04-05	04-05	05-06	05-06*	06-07	06-07	06-07	06-07
Gofal ac Iechyd	04-05	04-05	04-05	04-05*	04-05	04-05	04-05	04-05
Cyfrifiadureg	04-05	04-05	05-06	04-05*	04-05	05-06	06-07	05-06
Adeiladu	04-05	04-05	05-06	04-05*	06-07	06-07	06-07	06-07
Peirianneg	04-05	04-05	05-06	04-05*	06-07	06-07	06-07	06-07
Addysg Gyffredinol	04-05	04-05	05-06	04-05	06-07	S	06-07	S
Gwallt a Harddwch	04-05	04-05	04-05	05-06*	06-07	06-07	06-07	06-07
Astudiaethau'r tir	04-05	04-05	05-06	06-07*	06-07	S	06-07	S
Technoleg Swyddfa ac Ysgrifenyddol	04-05	04-05	05-06	05-06*	06-07	06-07	06-07	06-07
Twristiaeth a Hamdden (gan gynnwys chwaraeon)	04-05	04-05	04-05	04-05*	05-06	05-06	06-07	05-06
Astudiaethau Cynalwedigaethol	04-05	04-05	05-06	04-05*	06-07	06-07	Amh	06-07
Sgiliau Allweddol a Sylfaenol	04-05	04-05	Amh	Amh	04-05	04-05	Amh	04-05
Addysg Gymunedol	04-05	04-05	06-07	Amh	05-06	06-07	Amh	06-07
Gwasanaethau Myfyrwyr	04-05	04-05	Amh	Amh	05-06	Amh	Amh	Amh
Hyfforddiant Llwybrau	05-06	05-06	06-07	06-07*	06-07	S	06-07	06-07
Hyfforddiant Cymru	06-07	06-07	06-07	Amh	06-07	06-07	Amh	06-07

Allwedd

# Llafar, ysgrifenedig ac Arweiniad	**##** Elfennau adnoddau dysgu	**S** Cyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg
***** Elfen Gymraeg unigol yn ymateb i	Dwyieithog	Dwyieithog yn ymateb i'r galw

4.5 Mecanweithiau Cefnogi

4.5.1 Er mwyn cefnogi'r datblygiadau sydd wedi'u hamlinellu uchod dros y cyfnod tair blynedd 2004-2007, bydd y Coleg yn ymroi i ddarparu cyfle i unrhyw ddysgwr sy'n mynegi awydd i ymroi i ddysgu trwy'r iaith Gymraeg i:

- gael arweiniad yn Gymraeg o ran agweddau ar y cyrsiau a astudir yn Saesneg; **(Targed: 2004-05)**
- cynnal asesiadau, cyfweliadau mynediad, sesiynau tiwtorial neu weithgareddau mentora yn Gymraeg; **(Targed: 2004-05)**
- cael mynediad i brofiad gwaith mewn awyrgylch lle siaredir Cymraeg; **(Targed: 2004-05)**
- mynychu dosbarthiadau iaith ychwanegol yn y Gymraeg i gefnogi'r pynciau a gyflwynir yn Saesneg; **(Targed: 2005-06)**
- cael mynediad i ddeunyddiau dysgu Cymraeg, pan fyddant ar gael, ar gyfer pynciau a gyflwynir yn Saesneg; **(Targed: 2005-06)**
- cael eu cynnwys mewn elfennau penodol o gwrs lle mae wedi bod yn bosibl iddo gael ei gyflwyno yn Gymraeg; **(Targed: 2006-07)**
- cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg; **(Targed: 2006-07)**

4.5.2 Bydd y mecanweithiau cefnogi uchod yn cael eu cydlynu, ac yn cael eu cyflwyno'n rhannol, gan y Swyddog Iaith Gymraeg a fydd yn cael ei adnabod fel y person cyntaf y dylai'r holl staff ofyn iddo am gefnogaeth ar gyfer dysgu trwy'r iaith Gymraeg. **(Targed: 2004-05)**

4.5.3 Bydd yr Uned Ddwyieithrwydd yn chwarae rôl ganolog o ran hyrwyddo, mynd i'r afael â, a monitro gweithredu'r mecanweithiau cefnogi hyn.
(Targed: 2004-05)

4.5.4 Eir i'r afael â'r mecanweithiau cefnogi penodol sy'n ofynnol ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a chanddynt anghenion dysgu addysgol arbennig ac anableddau trwy sicrhau bod yr holl wasanaethau a nodwyd yn 4.5.1 uchod yn dod o fewn nawdd Polisi Cyfle Cyfartal y Coleg, y Datganiad Anabledd a Chytundeb Dysgu Myfyrwyr y Coleg.
(Targed: 2006-07)

4.5.5 Tynnir sylw at y mecanweithiau cefnogi sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio yn Gymraeg yn y Llawlyfr Myfyrwyr, yn y Rhaglen Anwythiad ac yn y sesiynau tiwtorial.
(Targed: 2004-05)

ADRAN 5

SAFONAU ANSAWDD

Mae gan y coleg system sefydledig ar gyfer rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd. Mae pob uned academaidd a swyddogaethol yn ddarostyngedig i'w gofynion a'i gweithdrefnau. Mae rheoli ansawdd yn nwylo'r rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am gyflwyno'r rhaglenni dysgu penodol neu wasanaethau'r coleg, tra bo sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar waith Grŵp Adolygu Ansawdd y Coleg (QUARG) sy'n sicrhau bod safonau perfformiad a chyflwyniad yn cael eu cynnal yn ôl lefel gyson. Daw holl ddarpariaeth y dysgu a'r gwasanaethau yn Gymraeg o fewn cylch gwaith systemau ansawdd y Coleg.

5.1 Gweithdrefnau Monitro

5.1.1 Bydd y Coleg yn sicrhau bod gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei fonitro trwy system sicrhau ansawdd y coleg, h.y. yng nghyfarfodydd misol y Grŵp Adolygu Ansawdd (QUARG), Bwrdd Rheoli'r Coleg (BRhC) ac yn y Diwrnodau Adolygu Ansawdd strwythuredig. Eir i'r afael hefyd â chysondeb wrth gynnal safonau yn y broses fonitro hon. **(Targed: 2004-05)**

5.2 Adolygu ac Arfarnu

5.2.1 Bydd disgwyl yr un ansawdd a safonau sy'n ymwneud â holl ddarpariaeth a gweithrediadau cyfrwng Saesneg y Coleg yn y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg. Bydd meini prawf perfformiad union debyg yn cael eu defnyddio wrth arfarnu ansawdd a safonau. Bydd y coleg yn datgan ei ymrwymiad at sicrhau safonau ieithyddol cyfartal ar gyfer y ddwy iaith yn ei gynlluniau strategol, ei adroddiad blynyddol, ei brosbectysau a'i holl lenyddiaeth hyrwyddo. **(Targed: 2004-05)**

5.2.2 Bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech i fanteisio ar wasanaethau personél sy'n siarad Cymraeg pan fydd gofyniad o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer gweithdrefnau rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd. **(Targed: 2004-05)**

5.2.3 Bydd yr Uned Ddwyieithrwydd yn gweithredu fel corff annibynnol a diduedd i asesu ac adrodd ar ansawdd profiad y rheiny sy'n cael y gwasanaeth, h.y. y cyhoedd a'r dysgwyr. **(Targed: 2004-05)**

5.3 Darpariaeth mewn canolfannau eraill

Pan fydd y Coleg yn gweithredu mewn canolfannau neu leoliadau y tu hwnt i'w brif gampysau, bydd yn gwneud popeth i sicrhau y bydd, pa bynnag wasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn y canolfannau hynny trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ddarostyngedig i'r un disgwyliadau ansawdd â'r disgwyliadau ansawdd a ddarperir ar y prif gampysau. **(Targed: 2005-06)**

ADRAN 6

CYFATHREBU Â'R CYHOEDD

6.1 Cyfathrebu Ysgrifenedig

6.1.1 Mae Coleg Castell-nedd Port Talbot yn croesawu pob math o gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ymateb yn Gymraeg yn dilyn cyfarfod wyneb yn wyneb neu dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig ar e-bost. **(Targed: 2004-05)**

6.1.2 Bydd yr holl ohebiaeth yn Gymraeg yn cael ymateb wedi'i arwyddo yn Gymraeg. Bydd y Coleg yn cofnodi'r dewis iaith cyfathrebu ac yn gweithredu yn unol â hynny. **(Targed: 2004-05)**

6.1.3 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau na fydd gohebiaeth yn Gymraeg ynddi'i hun yn arwain at oedi. **(Targed: 2004-05)**

6.1.4 Bydd llythyrau gan y Coleg sy'n cyfeirio at faterion a drafodwyd yn Gymraeg yn flaenorol yn cael eu hysgrifennu yn Gymraeg. **(Targed: 2004-05)**

6.1.5 Bydd yr holl ohebiaeth swyddogol a gyhoeddir gan y Pennaeth i sefydliadau a chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd y ddarpariaeth hon yn cynnwys dosbarthu cylchlythyrau i'r cyhoedd yng Nghymru trwy gydol oes y Cynllun. **(Targed: 2006-07)**

6.1.6 Bydd y staff yn cael negeseuon ysgrifenedig trwy sesiynau briffio staff am y cynllun. Rhoddir pwyslais penodol ar gyfrifoldebau staff y llinell flaen o ran hyn. **(Targed: 2004-05)**

6.1.7 Bydd y Coleg yn sefydlu cronfa ddata o bobl a sefydliadau pan ddewisir yr iaith Gymraeg fel y cyfrwng cyfathrebu. **(Targed: 2006-07)**

6.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

6.2.1 Mae'r Coleg yn croesawu negeseuon ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae'r staff nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cael hyfforddiant i ddelio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg fel y gallent gynnig cyfarchiad byr dwyieithog iddynt ac y gellir trosglwyddo'r person at siaradwr Cymraeg priodol.

6.2.2 Bydd yr holl staff yn cael arweiniad ar ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg. **(Targed: 2004-05)**

6.2.3 Pan fydd y galwr yn dymuno siarad â siaradwr Cymraeg ac na all aelod y staff sy'n derbyn yr alwad ymateb yn Gymraeg, bydd y galwr yn cael eglurhad am hyn, a bydd yn cael dewis

- cael ei drosglwyddo i siaradwr Cymraeg;
- parhau'r alwad yn Saesneg;
- cyflwyno'r neges yn ysgrifenedig yn Gymraeg.

(Targed: 2004-05)

6.2.4 Bydd y Coleg yn llunio cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau atynt. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hymestyn i enwi staff sy'n gallu siarad Cymraeg mewn llenyddiaeth a gynhyrchir gan y coleg. Bydd y cyfeirlyfr hwn yn cael ei ddosbarthu i holl staff y Coleg, a bydd ar gael ar fewnrwyd y Coleg. **(Targed: 2005-06)**

6.2.5 Bydd y negeseuon sydd wedi'u recordio ar beiriannau ateb y Coleg yn ddwyieithog, a bydd yr amser ymateb a osodir ar gyfer ateb neges yn Gymraeg yr un fath ag y mae ar gyfer y Saesneg. **(Targed: 2005-06)**

6.3 Cyfarfodydd cyhoeddus

6.3.1 Bydd hawl gan gyfranogwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus sy'n cael eu trefnu gan y Coleg i siarad Cymraeg neu Saesneg, a byddant yn cael eu hysbysu felly cyn y digwyddiad. Bydd pob gohebiaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r cyfarfod ar ffurf ddwyieithog gyda nodyn atodol yn gofyn i'r bobl sy'n mynychu nodi eu dewis iaith ymlaen llaw. **(Targed: 2005-06)**

6.3.2 Os yw Cymraeg yn cael ei nodi fel y dewis gyfrwng ar gyfer cyfathrebu, yna gwneir trefniadau cyfieithu priodol yn unol â hynny. **(Targed: 2005-06)**

6.3.3 Bydd y staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny er mwyn dangos i'r rheiny sy'n bresennol bod cyfnewid dwyieithog yn cael ei dderbyn a'i annog. Gofynnir i'r staff hyn wisgo bathodynnau 'Cymraeg ar Waith' i nodi eu gallu dwyieithog.
(Targed: 2004-05)

6.4 Cyfarfodydd heb y Cyhoedd

6.4.1 Mewn cyfarfodydd mewnol yn y Coleg, bydd staff yn gallu defnyddio'u dewis iaith i gyfathrebu lle mae amgylchiadau, fel presenoldeb rhywun sy'n gallu cyfieithu ac yn barod i wneud hynny, yn galluogi busnes y cyfarfod i fynd yn ei flaen gyda dealltwriaeth lawn y cyfranogwyr. **(Targed: 2005-06)**

6.4.2 Mae croeso i unrhyw berson sy'n dymuno, neu y gofynnir iddo, gynnal cyfarfodydd preifat neu un i un â'r Coleg naill ai yn Gymraeg neu Saesneg. Cynigir dewis iaith wrth drefnu'r cyfarfod a bydd y Coleg yn cymryd pob cam sy'n ymarferol bosibl i ganiatáu gofyniad o'r fath, a gwneir trefniadau ag aelod priodol o'r staff sy'n siarad Cymraeg. Os na fydd yr Adran dan sylw'n cynnwys siaradwr Cymraeg priodol, bydd y person yn cael dewis

- parhau â'r cyfarfod yn Saesneg;
- cyflwyno gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyfarfod yn Gymraeg.

(Targed: 2004-05)

Wrth wneud hyn, mae'r Coleg yn cydnabod y gall unigolion fynegi eu barn a'u gofynion yn well yn eu dewis iaith, ac y gallent fod dan anfantais pe na bai cyfleuster o'r fath ar gael fel hawl yn hytrach na goddefiad.

6.5 Dulliau Eraill o Gyfathrebu

6.5.1 Bydd yr egwyddorion a amlinellir yn Adran 6.1 hefyd yn cael eu defnyddio wrth gyfathrebu'n electronig. **(Targed: 2004-05)**

6.5.2 Bydd y Coleg yn mabwysiadu'r un gweithdrefnau fel a nodwyd yn 6.3 pan fydd cyfathrebu â'r cyhoedd yn digwydd trwy dduliau eraill o gyfathrebu llafar, fel fideo-gynadledda. **(Targed: 2005-06)**

6.5.3 Bydd y Coleg yn sicrhau bod tudalennau iaith Gymraeg yn cael eu hychwanegu at ei wefan. Bydd yr hafan ac unrhyw dudalennau sy'n cyfeirio at ddarpariaeth iaith Gymraeg ar gael o ddechrau'r Cynllun.
(Targed: 2004-05)

Yna, bydd y tudalennau sy'n weddill sy'n delio â'r gwasanaethau ar draws y Coleg ar gael yn ddwyieithog yn barhaus, gan ddechrau gyda'r gwasanaethau a ddefnyddir amlaf. Mae'n bosibl y bydd y tudalennau sy'n disgrifio cyrsiau unigol sy'n cael eu haddysgu yn Saesneg yn unig yn parhau yn Saesneg yn unig.
(Targed: 2005-07)

ADRAN 7

WYNEB CYHOEDDUS Y COLEG

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Bydd pob modd ffurfiol o gyfleu'r hunaniaeth hon yn gyhoeddus, felly, yn mabwysiadu ffurf ddwyieithog.

7.1. Hunaniaeth Gorfforaethol y Coleg

7.1.1 Enw'r Coleg yw Coleg Castell-nedd Port Talbot/ Neath Port Talbot College.

7.1.2 Mae enw'r Coleg wedi'i ymgorffori yn logo'r Coleg. Bydd unrhyw newidiadau i'r logo yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

7.1.3 Bydd y canlynol yn ymddangos gydag ymrwymiad i gydraddoldeb:

- Enw*
- Logo*
- Penawdau llythyrau*
- Cardiau busnes*
- Slipiau cyfarch*
- Bathodynnau adnabod*
- Arwyddion adeiladau*
- Arwyddair corfforaethol

- Papur ffacs
- Cyhoeddiadau
- Arwyddion cerbydau
- Cyfundrefn enwau e-bost
- Deunyddiau safonol a gynhyrchir gan y Coleg

Mae'r eitemau sydd wedi'u nodi â seren eisoes yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gynhyrchu gweddill yr eitemau'n ddwyieithog yn ystod gweithredu'r cynllun. **(Targed: 2006-07)**

7.2 Arwyddion

7.2.1 Bydd yr holl arwyddion cyhoeddus a'r arwyddion gwybodaeth yn y Coleg, gan gynnwys y rheiny yn y meysydd mewnol, yn ddwyieithog ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. **(Targed: 2006-07)**

7.2.2 Pan fydd y ddwy iaith yn ymddangos ar yr un arwydd, Saesneg fydd yn cael ei rhoi uchaf. Os yw'r ddwy iaith ochr yn ochr, bydd y fersiwn Saesneg yn cael ei rhoi ar yr ochr chwith. Os defnyddir arwyddion ar wahân, bydd y ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd ac yn gyfartal o ran yr hyn y soniwyd amdano eisoes. **(Targed: 2006-07)**

7.2.3 Bydd yr holl arwyddion newydd a'r arwyddion sy'n disodli sy'n cael eu gosod yn y Coleg yn gwbl ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran yr hyn y soniwyd amdano eisoes. **(Targed: 2004-05)**

7.2.4 Pan gynhyrchir arwyddion, ar ran y Coleg, gan asiantaeth allanol, bydd y cynnwys yn cael ei gyfleu mewn ffurf sydd wedi'i geirbrosesu i sicrhau sillafu cywir yn ogystal â chydymffurfio â'r ymrwymiadau yn yr adran hon. **(Targed: 2004-05)**

7.2.5 Bydd yr arwyddion gwybodaeth a godir y tu allan i ffiniau'r Coleg, ond y mae'r Coleg yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt, hefyd yn ddwyieithog a byddant yn cydymffurfio â'r ymrwymiadau yn yr adran hon.
(Targed: 2006-07)

7.3 Deunydd Cyhoeddi ac Argraffu

7.3.1 Mae argaeledd adnoddau yn gorchymyn y bydd yn rhaid i'r Coleg ddewis pa ddogfennaeth fydd yn cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth generig ym mhob dogfen a chyhoeddiad swyddogol yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog gyda rhagdybiaeth o blaid dogfennau dwyieithog unigol trwy gydol oes y Cynllun.
(Targed: 2006-07)

7.3.2 Pan gaiff fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfen eu cynhyrchu ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd ac yn gyfartal o ran argaeledd. Bydd y naill fersiwn a'r llall yn nodi bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall. **(Targed: 2006-07)**

7.3.3 Bydd yr holl wasanaethau hynny y gall y Coleg eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg ym mhob un o'i brif gyhoeddiadau ni waeth pa iaith a ddefnyddir yng ngweddill y cyhoeddiad. Bydd manylion am y ddarpariaeth yn cael eu hysbysebu yn yr un iaith â chyfrwng y cyfarwyddyd a ddefnyddir ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth.
(Targed: 2006-07)

7.3.4 Bydd y Coleg yn sicrhau na fydd pris dogfen y fersiwn Gymraeg yn fwy na chost y fersiwn Saesneg. **(Targed: 2006-07)**

7.3.5 Bydd y Coleg yn sicrhau bod staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog. Cyfeirir yn benodol at *Ganllawiau Dylunio Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg. **(Targed: 2005-06)**

7.3.6 Bydd y Coleg yn llunio'r ddogfennaeth gyhoeddus swyddogol ganlynol yn ddwyieithog:

- Adroddiad Blynyddol; **(Cyflawnwyd)**
- Bwydlenni; **(Cyflawnwyd)**
- Tystysgrifau;
- Anfonebau;
- Siarteri;
- Dogfennau ymgynghori cyhoeddus;
- Posteri;
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth â chyrff cyhoeddus.

(Targed: 2006-07)

7.4 Ffurflenni a Deunydd Eglurhaol

7.4.1 Bydd yr holl ffurflenni a'r deunydd eglurhaol a gynhyrchir gan y Coleg, a restrir isod, yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar yr un ddogfen:

- Polisi Cyfleoedd Cyfartal; **(Cyflawnwyd)**
- Datganiad Anabledd (+Fersiynau Braille â Lluniau); **(Cyflawnwyd)**
- Adroddiad Blynyddol y Coleg; **(Cyflawnwyd)**
- Pecyn Asesu Cychwynnol Myfyrwyr; **(Cyflawnwyd)**
- Dyddiaduron Myfyrwyr; **(Cyflawnwyd)**
- Ffurflen Werthuso Buddiolwr Cronfa Gymdeithasol Ewrop CGE; **(Cyflawnwyd)**
- Ffurflen Gymhwyster CGE; **(Cyflawnwyd)**
- Cerdyn Cyfeirio Amcan 1 CGE; **(Cyflawnwyd)**
- Ffurflen Apwyntiad ar gyfer aelodau Bwrdd y Gorfforaeth. **(Cyflawnwyd)**
- Ffurflenni Cais Myfyrwyr; **(Targed: 2004-05)**
- Cytundebau Dysgu Myfyrwyr Unigol (CDMU); **(Targed: 2004-05)**
- Ffurflenni Cais Cronfa Fynediad; **(Targed: 2004-05)**
- Ffurflenni Caniatâd Rhieni Myfyrwyr; **(Targed: 2004-05)**

7.4.2 Pan fydd angen darparu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, byddant ar gael yn yr un modd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd ac yn cynnwys neges yn cadarnhau bod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r canlynol ar gael ar wahân:

- Ffurflenni Cofrestru Myfyrwyr; **(Targed: 2004-05)**
- Ffurflenni Cais am Swyddi Staff; **(Targed: 2004-05)**
- Llythyrau penodi staff; **(Targed: 2004-05)**
- Amodau Gwasanaeth Staff; **(Targed: 2005-06)**
- Contractau Cyflogi Staff. **(Targed: 2005-06)**

7.5 Hysbysiadau i'r Wasg

7.5.1 Gellir cyhoeddi datganiadau i'r wasg, i'r wasg Gymraeg yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig, a gellir cyhoeddi datganiadau i'r wasg, i'r wasg Saesneg sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru yn bennaf yn ddwyieithog neu yn Saesneg yn unig. Bydd gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn benodol berthnasol i'r iaith Gymraeg yn cael ei thargedu at y cyfryngau yng Nghymru a'r cyfryngau yn Lloegr. **(Targed: 2006-07)**

7.5.2 Ar gyfer yr holl hysbysiadau a hysbysebion yn y wasg sy'n ddwyieithog, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath o ran ffurf, maint, ac amlygrwydd. **(Targed: 2006-07)**

7.6 Gweithgareddau Cyhoeddusrwydd

7.6.1 Bydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a marchnata generig trwy gyfrwng y teledu, y radio a'r sinema yn ddwyieithog ac yn cynnal cydraddoldeb ar gyfer y ddwy iaith. **(Targed: 2006-07)**

7.6.2 Bydd y system ar gyfer delio â'r ymatebion i ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd a marchnata yn cynnwys y cyfleuster i gyfathrebu yn yr iaith Gymraeg. Bydd cysylltiadau wedi'u henwi yn cael eu nodi i'r diben hwn gan y Coleg.
(Targed: 2006-07)

7.6.3 Bydd unrhyw arddangosfa gorfforaethol neu stondinau gwybodaeth, llenyddiaeth gynhadledd neu seminar yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.
(Targed: 2006-07)

7.6.4 Bydd deunydd arolwg at ddibenion llenyddiaeth hyrwyddo yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog. **(Targed: 2006-07)**

7.7 Hysbysiadau Swyddogol a Chyhoeddus

7.7.1 Bydd yr holl hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus sy'n cael eu cynhyrchu yn y Coleg, ac yn ymddangos yng Nghymru, yn ddwyieithog. Bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, ffurf, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. **(Targed: 2006-07)**

7.8 Hysbysiadau Recriwtio

7.8.1 Bydd yr hysbysiadau ar gyfer recriwtio staff yn ddwyieithog ar gyfer swyddi lle ystyrir bod y Gymraeg yn ddymunol. Ar gyfer swyddi lle ystyrir bod y Gymraeg yn hanfodol, bydd yr hysbysiad yn Gymraeg yn unig, gyda throednodyn eglurhad yn Saesneg. Ar gyfer swyddi lle nad oes unrhyw ofyniad ieithyddol, gallai'r hysbysiad fod yn Saesneg yn unig. **(Targed: 2006-07)**

ADRAN 8

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

8.1 Staffio

8.1.1 Er mwyn sicrhau, dros gyfnod, y gall y Coleg gyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel yn Gymraeg, yn effeithiol ac yn effeithlon, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i broses gynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi'r Coleg i gynnal trosolwg o'i anghenion a'i adnoddau sgiliau ieithyddol a chydlynu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio er mwyn hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y camau sy'n dilyn yn ffurfio rhan o'r Strategaeth honno. **(Targed: 2004-05)**

8.1.2 Bydd y Coleg yn nodi'r gweithleoedd hynny lle ceir cyswllt rheolaidd â'r cyhoedd i'w galluogi i siarad â siaradwyr Cymraeg medrus, priodol, i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg llawn yn cael ei gyflwyno. **(Targed: 2004-05)**

8.1.3 Bydd y Coleg yn nodi swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar eu cyfer, a bydd yn ffurfio manylebau swyddi yn unol â hynny. **(Targed: 2004-05)**

8.1.4 Bydd y Coleg yn cyfeirio'n rheolaidd at yr archwiliad staff academaidd a gweinyddol i nodi anghenion ieithyddol y staff sy'n gyfrifol am gyflwyno mewn meysydd targed. Lle nad oes staffio mewn meysydd o'r fath, bydd y Coleg yn anelu at recriwtio staff sydd â'r sgiliau iaith priodol. **(Targed: 2004-05)**

8.1.5 Bydd y Coleg yn gweithredu'r rhaglen uchod trwy ei reolwyr a'i staff sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi a goruchwylio. **(Targed: 2004-05)**

8.1.6 Bydd y Coleg yn monitro cynnydd gweithredu'r rhaglen hon ac yn cymryd y camau priodol adferol pe bai gostyngiad yn y swyddi sy'n gysylltiedig â'r Cynllun. **(Targed: 2004-05)**

8.2 Dysgu Cymraeg

8.2.1 Bydd aelodau'r staff yn cael eu hannog i fynychu'r cyrsiau priodol i wella neu ddysgu sgiliau siarad Cymraeg yn unol â gofynion eu swyddi. **(Targed: 2004-05)**

8.2.2 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu rhaglenni dysgu a hyfforddiant i aelodau'r staff mewn meysydd targed sy'n hanfodol ar gyfer gweithredu'r Cynllun. **(Targed: 2004-05)**

8.2.3 Bydd y staff sy'n dymuno, neu sydd angen dysgu Cymraeg neu wella'u gallu presennol yn y Gymraeg, yn cael eu cefnogi i wneud hyn trwy:

- gael gwybodaeth reolaidd gan yr Uned Adnoddau Dynol am gyrsiau iaith Gymraeg
- cael gwersi am ddim ar gyfer cyrsiau o'r fath a chael mynediad at y cyrsiau hyn yn ystod oriau gwaith, pan ystyrir bod y sgiliau yn hanfodol ar gyfer gofyniad swydd
- cael mynediad i Rwydwaith 'Grŵp Cefnogi Staff Dysgwyr Cymraeg' y Coleg

(Targed: 2004-05)

8.2.4 Bydd y Safonau Iaith Cenedlaethol yn cael eu defnyddio fel modd o sefydlu'r lefel cymhwyster gofynnol ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg a staff sy'n dysgu Cymraeg. Bydd y staff hynny sy'n dymuno cael achrediad am eu sgiliau yn cael eu hannog i fanteisio ar y gwasanaeth hwn sydd am ddim. Bydd y Coleg yn ceisio cydweithio'n ymhellach â Sgiliaith a Chanolfan Bedwyr i drefnu hyfforddiant galwedigaethol penodol ar gyfer y staff addysgu a'r staff nad ydynt yn addysgu. **(Targed: 2005-06)**

8.3 Recriwtio

8.3.1 Bydd y Coleg yn nodi yn ei strwythur staffio y swyddi hynny sy'n gofyn am y gallu i siarad Cymraeg i raddau amrywiol, a bydd yn sicrhau, lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, bod hyn yn cael ei nodi wrth recriwtio ar gyfer y swydd honno.
(Targed: 2004-05)

8.3.2 Bydd y coleg yn pennu gofynion ieithyddol y swyddi y cyfeirir atynt uchod a bydd yn amlinellu'r gofynion hyn mewn hysbysebion recriwtio, mewn disgrifiadau swydd ac mewn manylebau person.
(Targed: 2004-05)

8.3.3 Bydd y Coleg yn annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r gweithlu trwy sicrhau bod hysbysebion, disgrifiadau swydd, manylebau person, llenyddiaeth sy'n ymwneud â swydd a chyfweliadau yn cael eu llunio, eu cyflwyno a'u gweithredu mewn fformat dwyieithog, yn unol â cham 7.8.1.
(Targed: 2004-05)

8.3.4 Mewn achosion lle mae person nad yw'n siarad Cymraeg yn cael ei benodi ar gyfer swydd yr ystyrir bod y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol oherwydd diffyg ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg, un o'r amodau cyflogi yw y bydd angen i'r person a benodir ddysgu'r iaith yn ôl lefel y medr y nodwyd ei bod yn angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u pennu ar gyfer y swydd, o fewn terfyn amser y cytunir arno. Bydd y Coleg yn darparu cefnogaeth yn hyn o beth fel a nodwyd yn

8.2.3 uchod. Bydd y gofyniad hwn yn ymddangos yn gyfartal ochr yn ochr â'r holl feini prawf perfformiad eraill a ddefnyddir i asesu'r person a benodir yn ystod y cyfnod sefydlu a'r cyfnod prawf.
(Targed: 2004-05)

8.3.5 Bydd y Coleg yn asesu medrau ac anghenion ieithyddol yr holl staff sydd newydd eu penodi yn unol â gweithredu'r Cynllun.
(Targed: 2004-05)

8.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

8.4.1 Bydd y Coleg yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg i hwyluso gweithredu'r Cynllun a bydd yn darparu'r hyfforddiant angenrheidiol trwy'r moddau a nodwyd yn 8.2.3 ac 8.2.4 uchod. **(Targed: 2004-05)**

8.4.2 Rhoddir blaenoriaeth yn gyntaf i hyfforddiant ac ailhyfforddiant ar gyfer staff llinell flaen er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau i'r cyhoedd. Bydd rhaglen gyfochrog o hyfforddiant mewn cyflwyno'n ddwyieithog ar gyfer staff sydd wedi'u cynnwys mewn meysydd rhaglen sydd wedi'u clustnodi ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu yn Gymraeg, yn cael ei sefydlu yn unol â'r ddarpariaeth matrics a gynhwysir yn Adran 4.3. **(Targed: 2004-05)**

8.5 Trefniadau Gweinyddu

8.5.1 Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu gydag awdurdod llawn Bwrdd y Gorfforaeth.

8.5.2 Bydd gan y Pennaeth gyfrifoldeb llawn am weithredu'r cynllun. Bydd ef neu hi yn sicrhau bod, Uwch Reolwr yn atebol am gynnydd y Cynllun. Bydd y Rheolwyr Canol yn atebol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb ac am roi adborth ar gydymffurfiaeth yn y meysydd hynny o ran gofynion y Cynllun. Bydd yr Uned Ddwyieithrwydd, y mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn aelod craidd ohoni, yn parhau i lywio, goruchwylio a monitro gweithredu'r Cynllun cyn llunio adroddiad cydymffurfio. **(Targed: 2004-05)**

8.5.3 Bydd holl aelodau'r staff yn cael copi o'r Cynllun. Cynhelir sesiynau briffio i sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r Cynllun, eu bod yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt ac o'r modd y gweithredir y Cynllun. **(Targed: 2004-05)**

8.5.4 Bydd cyfarwyddiadau ac arweiniad ysgrifenedig am ddisgwyliadau'r Coleg o'r modd y dylid gweithredu'r Cynllun yn cael eu cyhoeddi i'r holl staff. **(Targed: 2004-05)**

8.5.5 Bydd y Coleg yn sicrhau bod y camau y mae wedi ymrwymo iddynt o fewn Cynllun yr Iaith Gymraeg yn cael eu hintegreiddio i bob agwedd ar wasanaethau'r Coleg ac yn ei brosesau gweinyddol.
(Targed: 2006-07)

8.5.6 Bydd gwasanaethau'r Swyddog Iaith Gymraeg yn cael eu defnyddio at ddibenion cyfieithu. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen defnyddio gwasanaethau asiantaethau cyfieithu cymeradwyedig allanol.
(Targed: 2006-07)

8.5.7 Pan na ellir addasu'r systemau technoleg gwybodaeth presennol i hwyluso gweithredu'r Cynllun, sefydlir camau interim fel rhagflaenydd i system na fydd yn rhwystro gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.
(Targed: 2006-07)

8.6 Gwasanaethau a gyflwynir ar ran y Coleg gan bartïon eraill

Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Gweithia'r Coleg ar nifer o lefelau pan fydd yn gweithio gydag eraill:

8.6.1 Pan fydd y Coleg yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. **(Targed: 2006-07)**

8.6.2 Pan fydd y Coleg yn ymuno mewn partneriaeth lle mae unrhyw gorff arall yn arwain, bydd mewnbwn y Coleg yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg, a bydd y Coleg yn annog partïon eraill i gydymffurfio.
(Targed: 2006-07)

8.6.3 Pan fydd y Coleg yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Pan fydd yn gweithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y Coleg yn gweithredu'n unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg. **(Targed: 2006-07)**

8.6.4 Pan fydd y Coleg yn ymuno mewn partneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i ddarpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, eu polisïau iaith neu'r ffyrdd y byddant yn gweithredu'n ddwyieithog. Mewn unrhyw bartneriaeth, bydd y Coleg yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r sefydliadau partner eraill. **(Targed: 2006-07)**

8.6.5 Gall sefydliadau eraill fel contractwyr, ymgynghorwyr, asiantaethau, cwmnïau ac unigolion weithredu gwasanaethau amrywiol ar ran y Coleg. Bydd yr holl gytundebau a threfniadau i sefydliadau allanol o'r math hwn ymgymryd â darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran y Coleg yn cydymffurfio'n llawn â thelerau a gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. **(Targed: 2006-07)**

8.6.6 Bydd uwch-ddeiliad swydd sy'n gyfrifol am y Cynllun, yr Is-Bennaeth, yn goruchwylio gweithredu'r ymrwymiadau hyn trwy:

- lunio gweithdrefnau ysgrifenedig i'r staff sy'n delio ag asiantwyr a chontractwyr, a systemau i sicrhau bod y staff yn delio â nhw;
- nodi'r gofynion o ran defnyddio'r iaith Gymraeg mewn dogfennau tendro, contractau ac amodau grant neu fenthyciad;
- monitro gweithredu'r Cynllun gan asiantwyr a chontractwyr;

- annog y contractwyr hynny sydd â'u Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain i weithredu agweddau perthnasol;
- cael adroddiadau perfformiad rheolaidd.

(Targed: 2006-07)

8.7 Monitro'r Cynllun

8.7.1 Yr Is-Bennaeth fydd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun, a bydd ei enw yn hysbys i'r staff, yr asiantwyr neu'r contractwyr sy'n cael eu cyflogi gan y Coleg yn ogystal â'r cyhoedd.
(Targed: 2004-05)

8.7.2 Bydd y Coleg yn sefydlu gweithdrefn cwynion briodol yn ymwneud â chwynion am y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei integreiddio yng ngweithdrefn gwynion cyffredinol y Coleg.
(Targed: 2004-05)

8.7.3 Yn ogystal â monitro'r cwynion a dderbynnir, bydd y Coleg yn monitro barn siaradwyr Cymraeg a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ynglŷn â gweithredu'r Cynllun. **(Targed: 2004-05)**

8.7.4 Bydd gweithredu'r Cynllun yn cael ei fonitro o fewn fframwaith y Coleg ar gyfer monitro'i holl weithrediadau, a bydd yn cael ei gynnwys yn y broses fonitro i'r un graddau ag unrhyw agwedd ar weithrediadau'r Coleg. **(Targed: 2004-05)**

8.7.5 Bydd y Coleg yn croesawu ac yn cofnodi awgrymiadau ar sut i wella'r Cynllun.
(Targed: 2004-05)

8.8 Adolygu'r Cynllun

8.8.1 Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n ffurfiol trwy gyflwyno adroddiadau cynnydd i Fwrdd Rheoli'r Coleg ddwywaith y flwyddyn. **(Targed: 2004-05)**

8.8.2 Bydd adroddiad cydymffurfio blynyddol yn cael ei gyflwyno i aelodau Bwrdd y Gorfforaeth. Bydd yr adroddiad cydymffurfio hwn yn rhoi gwybodaeth i Lywodraethwyr y Coleg am y canlynol:

- a yw'r Coleg yn cydymffurfio â'r Cynllun;
- i ba raddau y mae'n llwyddo i gyd cydymffurfio;
- i ba raddau y caiff gweithredu'r Cynllun ei reoli'n briodol;
- perfformiad yr holl Gyfadrannau a'r Unedau Swyddogaethol wrth gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u priodoli yn y Cynllun mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau'r cwricwlwm Cymraeg a'r gwasanaethau gweinyddol;
- unrhyw agwedd ar gyfer gwella, a fydd yn cael ei chynnwys mewn Cynllun Gweithredu gydag amserlen ddiffiniedig ar gyfer gweithredu. **(Targed: 2004-05)**

8.8.3 Bydd copi o'r adroddiad cydymffurfio hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. **(Targed: 2004-05)**

8.8.4 Yn ystod trydedd flwyddyn gweithredu'r Cynllun, bydd y Coleg yn paratoi adroddiad arfarnu cynhwysfawr a fydd yn asesu ac yn arfarnu ei berfformiad wrth weithredu'r Cynllun ers ei ddechrau. Bydd yr adroddiad hwn yn:

- rhoi trosolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfio a pherfformiad wrth weithredu'r Cynllun yn ystod y tair blynedd cyntaf o ran cyflwyno gwasanaethau a rheoli'r Cynllun;
- amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf sy'n deillio o'r arfarniad, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r camau yn y Cynllun.
  (Targed: 2006-07)

8.8.5 Er mwyn llywio'r broses o lunio'r adroddiad arfarnu hwn, bydd y Coleg yn cynnal arolwg boddhad gyda'r myfyrwyr, y staff a'r cyhoedd i gadarnhau eu barn am gwmpas ac ansawdd ei wasanaethau dwyieithog. **(Targed: 2006-07)**

8.8.6 Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Coleg yn diwygio ac yn diweddaru ei Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y cylch gweithredu nesaf.
(Targed: 2006-07)

8.9 Targedau Gweithredu'r Cynllun

8.9.1 Bydd y Coleg yn mesuro gweithredu'r Cynllun yn erbyn dangosyddion perfformiad penodol, a dyma'r rhai pwysicaf yn ystod y cyfnod 2004-07:

- yr amseroedd ymateb ar gyfer gohebiaeth;
- canran yr arwyddion dwyieithog;
- canran y cyhoeddiadau a'r ffurflenni sy'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog;
- ansawdd yr arwyddion a'r cyhoeddiadau dwyieithog;
- nifer y myfyrwyr sy'n dysgu trwy y gyfrwng y Gymraeg;
- nifer y modiwlau a gyflwynir trwy y gyfrwng y Gymraeg;
- nifer y siaradwyr Cymraeg sydd mewn swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

(Targed: 2006-07)

8.9.2 Bydd y Coleg yn cyhoeddi gwybodaeth yn cymharu perfformiad â'r safonau a'r targedau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn yr Adroddiad Blynyddol. Pan na wireddir y safonau, bydd y Coleg yn egluro'r rhesymau dros hyn ac yn ceisio cywiro'r sefyllfa. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei roi ar wefan y Coleg.
(Targed: 2004-05)

8.10 Manylion Cysylltu

Yr uwch-ddeiliad swydd sy'n gyfrifol am Gynllun Iaith Gymraeg y Coleg yw'r Is-Bennaeth. Dylid cyfeirio ymholiadau am y Cynllun at ddeiliad y swydd yn y Coleg ar hyn o bryd, sef:

Mr. Rob Fowler
Is-Bennaeth
Coleg Castell-nedd Port Talbot
Heol Dŵr-y-Felin
Castell-nedd
SA10 7RF

Ffôn: (01639) 648000
e-bost: rob.fowler@nptc.ac.uk

ADRAN 9

RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN

Bydd y Coleg yn ymdrechu i gyhoeddi ei Gynllun Iaith Gymraeg mor eang â phosibl i sicrhau bod unrhyw un sy'n ceisio manteisio ar ei wasanaethau yn ymwybodol o'i ddarpariaeth Gymraeg a bod cyflogedigion, asiantwyr a chontractwyr y Coleg yn ymwybodol o'r angen i weithredu yn unol â gofynion y Cynllun.

9.1 Ar ôl Cymeradwyo

9.1.1 Bydd y Coleg yn sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael i'w staff ac i'r cyhoedd trwy'r mewnrwyd a'r rhyngrwyd.
(Targed: 2004-05)

9.1.2 Bydd copïau caled o'r Cynllun yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r staff academaidd a'r staff gweinyddol. **(Targed: 2004-05)**

9.1.3 Bydd y Coleg yn ymdrechu i hybu'r manteision o gaffael neu wella sgiliau iaith Gymraeg i ddarpar fyfyrwyr at ddibenion cymdeithasol neu gyflogaeth.
(Targed: 2004-05)

9.1.4 Bydd y myfyrwyr yn cael eu hysbysu ynghylch ymrwymiad y Coleg i'r Cynllun Iaith Gymraeg trwy'r Rhaglen Anwythiad. Bydd y Cynllun ar gael ar-lein a bydd yn cael ei grynhoi yn y Llawlyfr i Fyfywyr.

9.1.5 Bydd copi o'r Cynllun ar gael yn yr Uned Adnoddau Dynol, yn y Gwasanaethau Myfyrwyr ac ym mhrif Dderbynfeydd y Coleg.
(Targed: 2004-05)

9.2 Methodoleg

9.2.1 Bydd y Coleg yn defnyddio'r dulliau canlynol i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun:

- gwefan;
- datganiadau i'r wasg;
- hysbysiadau;
- taflenni;
- llyfrgelloedd;
- nosweithiau gyrfaoedd;
- nosweithiau agored;
- ymweliadau ysgol;
- prosbectysau;
- bydd gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i gynnig arweiniad a chefnogaeth.

(Targed: 2004-05)

ADRAN 10

AMSERLEN AR GYFER GWEITHREDU

Crynodeb yw'r tabl canlynol o'r holl gamau i'w cymryd er mwyn gweithredu'r Cynllun dros y cyfnod 2004-07. Gellir dod o hyd i union eiriad pob cam ym mhrif gorff y Cynllun. Bydd yr amserlen hon, ynghyd â'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau iaith Gymraeg, yn cael eu defnyddio fel y prif gyfrwng ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd wrth gyflawni'r targedau a osodwyd ar gyfer gweithredu pob cam.

CYFEIRNOD	CAM	DYDDIAD TARGED 2004-05
3.1.1.	Monitro effaith ieithyddol datblygiadau newydd	
3.1.2.	Statws 'Eitem Sefydlog' i'r Cynllun ar agendâu cyfarfodydd y Coleg	
3.2.1.	Datblygiad staff ar gynnwys y Cynllun	
3.2.2.	Cynllun i'w roi ar wefan y Coleg ac ar fewnrwydi staff a myfyrwyr (VLE)	
3.2.3.	Cyfleu goblygiadau'r Cynllun ar unrhyw bolisi neu fenter newydd	
4.5.1.	▪ Dysgwyr i gael arweiniad yn Gymraeg ▪ Dysgwyr i ymgymryd ag asesiadau, cyfweliadau mynediad, sesiynau tiwtorial a mentora yn Gymraeg ▪ Dysgwyr i gael profiad gwaith yn Gymraeg	
4.5.2.	Swyddog Iaith Gymraeg i gydlynu mecanweithiau cefnogi cyfrwyng Cymraeg i ddysgwyr	
4.5.3.	Uned Ddwyieithrwydd i fonitro gweithredu mecanweithiau cefnogi	
4.5.5.	Hyrwyddo mecanweithiau cefnogi yn y Llawlyfr i Fyfyrwyr, y Rhaglen Anwythiad a'r Sesiynau Tiwtorial	
5.1.1.	Cynllun i'w fonitro trwy'r Coleg trwy'r system sicrhau ansawdd	
5.2.1.	Defnyddio Dangosyddion Perfformiad tebyg wrth arfarnu safonau sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg a Saesneg	
5.2.2.	Defnyddio personél sy'n siarad Cymraeg at ddibenion sicrhau ansawdd	
5.2.3.	Uned Ddwyieithrwydd i weithredu'n annibynnol wrth asesu ansawdd y gwasanaeth a geir	
6.1.1.	Darparu ymatebion yn Gymraeg ar gyfer gohebiaeth uniongyrchol, yn ysgrifenedig neu dros yr e-bost	
6.1.2.	Gwneud cofnod o'r dewis iaith ar gyfer cyfathrebu	

6.1.3.	Gohebiaeth Gymraeg i beidio ag arwain at oedi wrth ymateb	
6.1.6.	Rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'r staff ar weithredu'r Cynllun, yn enwedig staff llinell flaen	
6.2.2.	Rhoi arweiniad i staff ar ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg	
6.2.3.	Rhoi dewisiadau diffiniedig i alwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf	
6.3.3.	Y staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gwisgo bathodynnau sy'n dangos hynny	
6.4.2.	Trefnu, lle bydd hynny'n bosibl, i gyfarfodydd personol neu breifat gael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg	
6.5.1.	Defnyddio ymagwedd gyfartal o ran cyfathrebu'n electronig	
6.5.3.	Tudalennau Iaith Gymraeg i'w cynnwys ar wefan y Coleg	
7.2.3.	Dylai pob arwydd newydd ac arwyddion sy'n disodli fod mewn fformat dwyieithog y cytunwyd arno	
7.2.4.	Dylid cyfleu'r wybodaeth ar arwyddion a gynhyrchir yn allanol mewn fformat prosesydd geiriau	
7.4.1.	Llunio fersiynau Cymraeg o: ▪ Ffurflenni Cais Myfyrwyr ▪ Cytundebau Dysgu Myfyrwyr Unigol ▪ Ffurflenni Cais Cronfa Fynediad ▪ Ffurflenni Caniatâd Rhieni Myfyrwyr	
7.4.2.	Llunio fersiynau Cymraeg o: ▪ Ffurflenni Cofrestru Myfyrwyr ▪ Ffurflenni Cais Swyddi Staff ▪ Llythyrau penodi staff	
8.1.1.	Datblygu rhaglen sgiliau ieithyddol ar gyfer y staff	
8.1.2.	Nodi gweithleoedd sydd mewn cyswllt rheolaidd â'r cyhoedd i sicrhau sylw trwy gyfrwng y Gymraeg	
8.1.3.	Nodi swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer a ffurfio manylebau swyddi yn unol â hynny	
8.1.4.	Defnyddio'r archwiliad o sgiliau siarad Cymraeg i dargedu meysydd diffyg a llywio'r strategaeth recriwtio	
8.1.5.	Rheolwyr i ystyried yr archwiliad wrth gynllunio recriwtio a hyfforddiant	
8.1.6.	Monitro'r proffil staffio a gweithredu yn sgîl unrhyw ostyngiad mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r Cynllun	
8.2.1.	Annog staff i fynychu cyrsiau i wella neu ddysgu sgiliau siarad Cymraeg	

8.2.2.	Darparu rhaglenni datblygiad staff i'r staff yr ystyrir bod eu sgiliau'n hanfodol ar gyfer gweithredu'r Cynllun	
8.2.3.	Darparu'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer y staff sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant	
8.3.1.	Nodi swyddi sy'n gofyn am y gallu i siarad Cymraeg a sicrhau bod y proffil hwn yn cael ei gydnabod yn y strategaeth recriwtio	
8.3.2.	Sicrhau bod y gofynion ieithyddol sy'n briodol ar gyfer swydd yn cael eu hadlewyrchu mewn hysbysebion, disgrifiadau swydd a manylebau person	
8.3.3.	Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth a ddefnyddir ar gyfer recriwtio yn cael ei chyflwyno mewn fformat dwyieithog, pan fydd swydd yn berthnasol i delerau'r Cynllun	
8.3.4.	Gwneud yn amlwg y gofyniad i unrhyw berson nad yw'n siarad Cymraeg sy'n cael ei benodi i swydd y mae'r 'Gymraeg yn hanfodol' ar ei chyfer, i ddysgu'r iaith yn ôl y safon briodol	
8.3.5.	Asesu sgiliau dwyieithog yr holl staff newydd a benodir	
8.4.1.	Asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol ymhlith staff a darparu'r datblygiad staff angenrheidiol	
8.4.2.	Blaenoriaethu hyfforddiant ac ailhyfforddiant ar gyfer y staff llinell flaen a'r staff addysgu wrth gyflwyno yn Gymraeg ac yn ddwyieithog	
8.5.2.	Sefydlu atebolrwydd ar gyfer gweithredu'r Cynllun ar lefel rheolaeth uwch a lefel rheolaeth ganol.	
8.5.3.	Darparu copi o'r Cynllun i'r holl staff ynghyd â sesiwn friffio ar y disgwyliadau o ran gweithredu'r Cynllun	
8.5.4.	Cyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i'r staff ar y disgwyliadau o ran gweithredu'r Cynllun	
8.7.1.	Sicrhau bod y cyfrifoldeb ar gyfer monitro ac adolygu'r Cynllun yn cael ei gyfleu i'r staff, yr asiantwyr neu'r contractwyr	
8.7.2.	Sefydlu gweithdrefn cwynion briodol o ran y Cynllun	
8.7.3.	Monitro barn siaradwyr Cymraeg a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg am y Cynllun	
8.7.4.	Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei fonitro trwy brosesau arferol y Coleg ac i'r un graddau ag unrhyw bolisi/weithdrefn arall	
8.7.5.	Cofnodi awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun	
8.8.1.	Cyflwyno adroddiadau cynnydd ddwywaith y flwyddyn i Fwrdd Rheoli'r Coleg	
8.8.2.	Cyflwyno adroddiad cydymffurfio blynyddol i Fwrdd y Gorfforaeth	

8.8.3.	Anfon copi o'r adroddiad cydymffurfio at Fwrdd yr Iaith Gymraeg	
8.9.2.	Cyhoeddi data perfformiad yn ymwneud â'r Cynllun yn yr Adroddiad Blynyddol	
9.1.1.	Sicrhau bod copïau o'r Cynllun, pan gaiff ei gymeradwyo, ar gael i'r staff a'r cyhoedd drwy'r mewnrwyd a'r rhyngrwyd	
9.1.2.	Dosbarthu copïau caled o'r Cynllun i'r staff academaidd a'r staff gweinyddol	
9.1.3.	Cyfleu telerau'r Cynllun i'r myfyrwyr trwy'r Rhaglen Anwthiad, y Llawlyfr i Fyfyrwyr a Mewnrwyd y Myfyrwyr	
9.1.4.	Sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael yn yr Uned Adnoddau Dynol, yn y Gwasanaethau Myfyrwyr ac ym mhrif Dderbynfeydd y Coleg	
9.2.1.	Defnyddio'r dulliau sydd wedi'u diffinio yn 9.3.1. i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun	

CYFEIRNOD	CAM	DYDDIAD TARGED 2005-06
4.5.1.	▪ Darparu dosbarthiadau iaith ychwanegol ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio pynciau yn Saesneg ▪ Darparu deunyddiau dysgu Cymraeg ar gyfer pynciau sy'n cael eu hastudio yn Saesneg	
5.3.1.	Sicrhau yr un disgwyliadau ansawdd ar gyfer cyrsiau Cymraeg a gyflwynir mewn canolfannau y tu allan i'r Coleg	
6.2.4.	Llunio cyfeirlyfr Cymraeg mewnol o siaradwyr Cymraeg i drosglwyddo galwadau. Cyhoeddi i'r holl staff a'i roi ar Fewnrwyd y Coleg	
6.2.5.	Negeseuon dwyieithog wedi'u recordio ar beiriannau ateb y Coleg	
6.3.1.	Dylai cyfranogwyr mewn cyfarfodydd Coleg cyhoeddus fod â'r hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg	
6.3.2.	Darparu cyfleusterau cyfieithu yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Coleg	
6.4.1.	Hwyluso cyfathrebu'n ddwyieithog yng nghyfarfodydd mewnol y coleg	
6.5.2.	Darparu cyfleusterau i alluogi cyfathrebu dwyieithog mewn cyfarfodydd ar-lein, fel fideo-gynadledda	

6.5.2.	Dylid sicrhau bod tudalennau iaith Gymraeg ar gael ar wefan y Coleg	
7.3.5.	Sicrhau bod gan staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr gyfarwyddiadau ysgrifenedig ar ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog	
8.2.4.	Defnyddio'r Safonau Iaith Cenedlaethol i sefydlu lefelau cymhwyster i'r staff sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg	

CYFEIRNOD	CAM	DYDDIAD TARGED 2006-07
4.5.1.	▪ Darparu elfennau penodol o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ▪ Galluogi myfyrwyr i gyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg	
4.5.4.	Dod â'r mecanweithiau cefnogi sy'n ofynnol gan fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sydd ag anawsterau dysgu ac/neu anableddau o fewn nawdd Polisi Cyfleoedd Cyfartal y Coleg, Datganiad Anabledd a Chytundeb Dysgu Myfyrwyr y Coleg	
6.1.5.	Dylai'r ohebiaeth swyddogol a gyflwynir i gyrff cyhoeddus fod yn ddwyieithog	
6.1.7.	Sefydlu cronfa ddata o bobl a sefydliadau lle mae'r Gymraeg yn cael ei dewis fel y cyfrwng cyfathrebu	
7.1.3.	Cynhyrchu eitemau sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol y Coleg mewn fformat dwyieithog	
7.2.1.	Dylai pob arwydd cyhoeddus ac arwydd gwybodaeth yn y Coleg fod yn ddwyieithog	
7.2.2.	Dylid glynu at delerau'r Cynllun wrth gynhyrchu holl arwyddion y Coleg	
7.2.5.	Dylai'r arwyddion gwybodaeth y tu allan i ffiniau'r y Coleg, ond y mae'r Coleg yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt, fod yn ddwyieithog	
7.3.1.	Dylid cyflwyno gwybodaeth generig mewn dogfennau swyddogol yn ddwyieithog, gyda rhagdybiaeth o blaid dogfennau unigol dwyieithog	
7.3.2.	Cyhoeddi fersiynau ar wahân o ddogfennau Cymraeg a Saesneg yr un pryd	
7.3.3.	Gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg i gael eu hysbysebu yn Gymraeg ym mhob cyhoeddiad pwysig	
7.3.4.	Dylai'r pris am ddogfen fersiwn Gymraeg fod yr un pris â dogfen fersiwn Saesneg	
7.3.6.	Cynhyrchu dogfennaeth gyhoeddus swyddogol mewn fformat dwyieithog	

7.5.1.	Llunio datganiadau i'r wasg yn unol â thelerau'r Cynllun	
7.5.2.	Dylai datganiadau i'r wasg gael fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ym mhob ystyr	
7.6.1.	Cyhoeddusrwydd generig ac ymgyrchoedd marchnata i fod yn ddwyieithog trwy'r teledu, y radio a'r sinema	
7.6.2.	Ymatebion i ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd a marchnata i gynnwys cysylltiadau wedi'u henwi yn Gymraeg	
7.6.3.	Cyflwyno arddangosfeydd a llenyddiaeth gynhadledd yn ddwyieithog	
7.6.4.	Cynhyrchu deunydd arolwg mewn fformat dwyieithog	
7.7.1.	Dylai holl hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus y Coleg, sy'n ymddangos yng Nghymru, fod yn ddwyieithog	
7.8.1.	Dylai'r hysbysiadau recriwtio staff fod yn unol â thelerau'r Cynllun	
8.5.5.	Integreiddio pob cam yn y Cynllun i bob agwedd ar wasanaethau a phrosesau gweinyddol y Coleg	
8.5.6.	Dylai'r Swyddog Iaith Gymraeg wneud yr holl gyfieithu	
8.5.7.	Sicrhau bod y systemau technoleg gwybodaeth yn hwyluso gweithredu'r Cynllun	
8.6.1.	Sicrhau bod unrhyw wasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu gan drydydd parti ar ran y Coleg yn cydymffurfio â'r Cynllun	
8.6.2.	Sicrhau y bydd y Coleg yn cydymffurfio â'r Cynllun wrth weithredu fel darparwr trydydd parti	
8.6.3.	Sicrhau y bydd y Coleg yn cydymffurfio â'r Cynllun wrth weithredu fel darparwr o fewn trefniant consortiwm	
8.6.4.	Ceisio dylanwadu ar aelodau eraill o bartneriaeth i weithredu'n ddwyieithog	
8.6.5.	Sicrhau y bydd y sefydliadau sy'n cyflwyno gwasanaethau ar ran y Coleg yn cydymffurfio'n llawn â thelerau'r Cynllun	
8.6.6.	Sicrhau bod yr ymrwymiadau a wneir gan bartïon sy'n gweithredu gwasanaethau ar ran y Coleg yn cael eu monitro a'u cyflawni	
8.8.4.	Paratoi adroddiad arfarnu cynhwysfawr o weithredu'r Cynllun dros dair blynedd	
8.8.5.	Cynnal arolwg boddhad â'r myfyrwyr, y staff a'r cyhoedd cyffredinol ar ystod ac ansawdd gwasanaethau dwyieithog y Coleg	
8.8.6.	Diwygio a diweddaru'r Cynllun ar gyfer 2007-10	
8.9.1.	Asesu effeithiolrwydd gweithredu'r Cynllun yn erbyn Dangosyddion Perfformiad penodol	

ATODIAD

Cynnydd wrth Weithredu Polisi Iaith Gymraeg y Coleg

ATODIAD

Cynnydd wrth Weithredu Polisi Iaith Gymraeg y Coleg

Ers 1996, mae'r Coleg wedi gwneud cynnydd parhaus wrth wella'i natur a'i ethos dwyieithog trwy gyflawni'r camau canlynol:

Cynllunio a Ffurfio Polisïau

- Cynnwys adran ar Ddatblygu'r Iaith Gymraeg yng Nghynllun y Sefydliad bob blwyddyn;
- Gosod targedau ar gyfer gweithredu agweddau gweithredol ar y Cynllun o flwyddyn i flwyddyn;
- Monitro ac arfarnu cynnydd yn rheolaidd, trwy ei systemau ansawdd, ar faterion gweithredu;
- Sefydlu Datblygu'r Iaith Gymraeg fel un o brif Flaenoriaethau'r Coleg;
- Gwneud cyflwyniadau i Fwrdd y Gorfforaeth, y Bwrdd Academaidd, Bwrdd Rheoli'r Coleg ac i bwyllgorau amrywiol y coleg ar Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 a Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg;
- Sefydlu 'Uned Ddwyieithrwydd' i weithredu law yn llaw ag Unedau Swyddogaethol eraill yn y coleg;
- Cynnal archwiliad o sgiliau dwyieithog a medrau siarad Cymraeg y staff;
- Cynnal archwiliadau blynyddol o sgiliau iaith a dewisiadau cyflwyno'r myfyrwyr;
- Penodi Swyddog Iaith Gymraeg sydd wedi bod yn ei swydd ers mis Medi 2001;
- Cyfieithu nifer o bolisïau'r coleg i'r Gymraeg;
- Chwarae'r brif rôl yn Is-Grŵp Dwyieithog y CCAH (darparu Cadeirydd ac ysgrifenyddiaeth);
- Cynnal arolwg rhanbarthol a dadansoddiad o anghenion hyfforddiant personél sy'n siarad Cymraeg yn y sector Gofal Plant ar ran y CCAH lleol;
- Cymryd rhan mewn cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd ag Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

- Sicrhau bod dewis o uwch-reolwyr a rheolwyr canol ar gael i ymateb yn briodol ac yn brydlon i ymholiadau gan y cyhoedd ar lafar neu yn ysgrifenedig;

- Cynhyrchu'r ddogfennaeth ddwyieithog ganlynol:
  - Adroddiad Blynyddol y Coleg
  - Taflenni Cyhoeddusrwydd ar gyfer Canolfannau Allanol y Coleg
  - Gwefan y Coleg
  - Gwefan NAPTA
  - Bwydlenni'r Tŷ Bwyta
  - Arwyddion a Baneri Hysbysebu
  - Taflenni Cyrsiau
  - Taflenni ar gyfer Meithrinfa'r Coleg
  - Taflenni ar gyfer Busnesau'r Coleg, e.e. Parcgro
  - Cyhoeddusrwydd Eisteddfod yr Urdd
  - Gwahoddiadau Swyddogol y Coleg
  - Adrannau o'r Cynllun Iaith Gymraeg Answyddogol

- Gwella'r ddogfennaeth Manyleb Person ar gyfer pob gweithdrefn recriwtio a dewis i gynnwys 'Gallu i Siarad Cymraeg' fel *dymunol*;

- Penodi Cynorthwy-ydd Personol i weithio gydag un o'r Is-Benaethiaid a gwasanaethu gofynion gweinyddol dwyieithog yr uwch-reolwyr eraill, pan fydd angen;

- Cyfieithu gwefan y Coleg i'r Gymraeg;

Cyflwyno Gwasanaethau (Swyddogaethau)

- Cynnal rhaglen hyfforddiant sylweddol ar gyfer staff gweinyddol a staff cefnogi i'w galluogi i gynnal gallu cychwynnol rhesymol wrth ddelio â gohebiaeth yn Gymraeg;

- Darparu cyfleoedd i'r holl staff wella'u sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg;

- Sicrhau bod gan bob maes swyddogaethol y coleg ddefnydd o leiaf un siaradwr Cymraeg i gefnogi cyflwyno'r gwasanaeth hwnnw, pan fydd yn ofynnol;

- Cynhyrchu'r ddogfennaeth ddwyieithog ganlynol:
  - Polisi Cyfle Cyfartal
  - Datganiad Anabledd a Braille a Fersiwn Lluniau
  - Modiwl Anwythiad
  - Modiwl Iaith Gymraeg AU
  - Dyddiadauron Myfyrwyr

- Portffolios Sgiliau Allweddol
- Dogfennaeth Sgiliau Allweddol
- Holiadur Staff
- Holiadur Myfyrwyr
- Cais CGE Dwyieithog
- Ffurflenni Cais
- Ffurflenni Cofrestru
- Gwefan y Coleg
- Adran Cynllun Sefydliad
- Taflenni Cyrsiau
- Nodyn Ffeil Cyfarfodydd Coleg

Cyflwyno Gwasanaethau (Darpariaeth)

- Ymestyn y ddarpariaeth 'Cymraeg i Oedolion' bob blwyddyn a darparu Sgiliau Sylfaenol yn Gymraeg i rieni plant ysgolion cynradd Cymraeg;

- Cyflwyno, mewn cydweithrediad ag Ysgol Gyfun Ystalyfera, rhaglen ddwyieithog Blynyddoedd Cynnar CACHE;

- Darparu sesiynau tiwtorial Cymraeg bob wythnos ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg;

- Darparu Modiwl Anwythiad dwyieithog yn Gymraeg

- Darparu Cyfathrebu Sgiliau Sylfaenol yn Gymraeg a rhai Sgiliau Allweddol Ehangach ar lefel dau;

- Cyflwyno modiwl cyfathrebu yn Gymraeg ar gyfer y cwrs Cyfryngau Darlledu DCU;

Cyfarfodydd â'r Cyhoedd

- Sicrhau, o ystyried y cydbwysedd presennol o siaradwyr Cymraeg ymhlith yr uwch-reolwyr a'r rheolwyr canol, bod dimensiwn dwyieithog yn cael ei hyrwyddo mewn unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus a drefnir gan y coleg;

- Cynnal cyflwyniadau cychwynnol ar lwyfannau cyhoeddus neu mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg i ddangos parodrwydd i ymateb yn Gymraeg pe bai ymateb o'r fath yn ofynnol;

- Cynhyrchu arwyddion sy'n ymwneud â digwyddiadau cyhoeddus mewn fformat dwyieithog;

- Cynhyrchu bathodynnau i'r staff hynny sy'n fodlon defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw drafodaeth gyda'r cyhoedd;

Wyneb Cyhoeddus y Coleg

- Hyrwyddo hunaniaeth ddwyieithog gorfforaethol;
- Dangos arwyddion dwyieithog trwy'r Coleg;

Marchnata a Chyhoeddusrwydd

- Defnyddio staff sy'n siarad Cymraeg mewn digwyddiadau marchnata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal ag ar gyfer unrhyw geisiadau darlledu;
- Cynhyrchu llenyddiaeth mewn fformat dwyieithog ar gyfer grwpiau sydd wedi'u targedu'n benodol, lle mae costau'n caniatáu;
- Cynhyrchu taflenni cyrsiau mewn fformat dwyieithog.